

Adroddiad Blynyddol Bwrdd Iechyd
Prifysgol Caerdydd a'r Fro gan
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
2016-17

Gorffennaf 2017

Gall y cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gael eu darparu mewn ffurf neu iaith arall ar gais. Bydd oedi byr wrth i ni baratoi ieithoedd a fformatau gwahanol er mwyn diwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Mae copïau o bob adroddiad, ar ôl ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu trwy'r canlynol

Ffôn: 0300 062 8163
Ebo: agic@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

1.	Diben.....	5
2.	Trosolwg	5
3.	Negeseuon allweddol.....	5
4.	Canfyddiadau'r arolygiad	6
5.	Adolygiadau arbennig, ymchwiliadau a chanfyddiadau thematig	9
6.	Camau dilynol a sicrwydd ar unwaith	12
7.	Llywodraethu.....	13
8.	Ymgysylltu.....	13
9.	Arolygiadau, adolygiadau arbennig, ymchwiliadau a gweithgareddau thematig	14

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r corff annibynnol sy'n arolygu ac yn rheoleiddio pob gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.

Ein gwerthoedd

- **Pwyslais ar y claf:** rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud
- **Uniondeb:** rydym yn agored ac yn onest yn y ffordd rydym yn gweithredu
- **Annibynnol:** rydym yn gweithredu a gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn
- **Cydweithredol:** rydym yn datblygu partneriaethau yn fewnol ac allanol
- **Proffesiynol:** mae ein dull gweithredu yn effeithiol, effeithlon a chyfrannol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith rydym yn anelu i:

Darparu sicrwydd:

Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

1. Diben

Cynhyrwyd yr adroddiad hwn fel crynodeb o weithgareddau AGIC rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2017 o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

2. Trosolwg

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliodd AGIC 34 o arolygiadau neu ymweliadau mewn lleoliadau o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, gan gynnwys:

- 3 arolygiad o ysbytai (arolygiad dilynol oedd un o'r rhain)
- 4 arolygiad o feddygon teulu
- 10 arolygiad o bractisau deintyddol
- 6 arolygiad anableddau dysgu
- 4 ymweliad Deddf Iechyd Meddwl
- 1 arolygiad o uned iechyd meddwl
- 1 arolygiad Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol)
- 5 archwiliad Marwolaeth yn y Ddalfa.

3. Negeseuon allweddol

Mae'r arolygiadau a gynhaliwyd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn dangos yn gyffredinol bod y gofal a ddarperir i gleifion yn garedig, yn dosturiol ac yn effeithiol, ac yn cael ei roi gan staff ymroddgar a brwdfrydig. Amlygwyd y materion canlynol gan ein gwaith, materion fydd o bosib yn galw am sylw pellach.

- Cofnodwyd mewn ystod o wahanol fathau o arolygiad yn ystod 2016-17, gan gynnwys arolygiadau mewn ysbytai a phractisau deintyddol, bod angen gwelliannau o ran dogfennaeth.
- Materion yn ymwneud â chynnal a chadw a gwella rhai amgylcheddau clinigol.

4. Canfyddiadau'r arolygiad

Yn ystod 2016-17, gwnaeth AGIC amrywiaeth o waith ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Daeth nifer o themâu allweddol i'r amlwg trwy ein gwaith eleni. Gweler crynodeb ohonynt isod:

Arolygiadau o Ysbytai

Dyma ganfyddiadau allweddol yr arolygiadau o ysbytai a gynhaliwyd yn ystod 2016-17:

- Arolygodd AGIC wardiau C6 a C7 Ysbyty Athrofaol Cymru ym mis Hydref 2016. Canfyddom fod yna systemau effeithiol ar waith sy'n galluogi cyflenwad cynaliadwy o ofal diogel, effeithiol sy'n canolbwyntio ar y claf a bod cleifion yn hapus â'r gwasanaeth a ddarperir. Roedd yr holl ddogfennaeth wedi'i chwblhau i safon dda ac yn ddigon manwl. Gwelsom fod asesiadau risg a chynlluniau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd a'u bod yn gyfredol. Gwnaethom argymhellion yn ymwneud ag iechyd a diogelwch, cynnal a chadw a thrwsio adeiladau, rheoli meddyginiaethau, atal a rheoli heintiau a chofnodi pwysau cleifion.
- Cynhaliodd AGIC arolygiad dilynol yn Ysbyty Athrofaol Llandochau ym mis Mawrth 2017. Canfyddom fod camau gweithredu addas wedi'u cymryd yn dilyn ein harolygiad diwethaf ym mis Chwefror 2016. Canfyddom dystiolaeth fod gofal yn ddiogel ac effeithiol ar draws y pedair ward y gwnaethom eu harolygu. Gwnaethom argymhellion yn ymwneud â mater cynnal a chadw, gwneud defnydd cywir o baneli arsylwi mewn drysau, cyflenwi gofal unedig rhwng gwasanaethau meddygol ac iechyd meddwl, ac ymgysylltu â staff ar ddyfodol darpariaeth y bwrdd iechyd o Wasanaethau Iechyd Meddwl ar gyfer Pobl Hŷn.
- Cwblhawyd arolygiad o'r Adran Argyfwng yn Ysbyty Athrofaol Cymru ym mis Mawrth 2017. Ar y cyfan, canfyddom dystiolaeth fod yr Adran Argyfwng yn darparu gofal a thriniaeth o safon dda i'w chleifion. Cafwyd tystiolaeth o hyn ar ffurf adborth cadarnhaol gan gleifion a'u teuluoedd a staff yn dangos eu bod yn frwdfrydig ac ymroddgar wrth ddarparu gofal diogel gydag urddas. Gwelsom uwch-nyrsys ac uwch-staff meddygol yn darparu arweinyddiaeth a chefnogaeth i staff iau mewn modd amserol. Roedd tystiolaeth o'r ffaith fod grwpiau gwahanol o staff yn cydweithio'n dda drwy'r adran gyfan ac roedd yr amgylcheddau clinigol yn lân a thaclus. Gwnaethom argymhellion yn ymwneud â chyflwr amgylchedd yr uned bediatrig yn ogystal â'r amgylchedd sy'n arwain tuag at y wardiau, a allai beri perygl o ran

iechyd a diogelwch i gleifion a staff. Roedd yna hefyd le i wella o ran glynu at egwyddorion ac arferion rheoli heintiau.

Iechyd Meddwl

Yn dilyn ein harolygiad o uned iechyd meddwl Hafan y Coed, daethom i'r casgliad fod gofal effeithiol ar gael i gleifion yn gyffredinol. Gwnaethom sylwadau cadarnhaol ynglŷn â'r ffaith fod cleifion yn derbyn gofal gyda pharch mewn amgylchedd diogel a'r ffaith fod gwybodaeth gyfredol yn cael ei roi i gleifion ar ffurf ysgrifenedig neu trwy siarad â staff. Fodd bynnag, gwnaethom fynegi rhai pryderon yn ymwneud â rheoli meddyginiaethau a chynllunio'r amgylchedd - pethau a allent gael effaith ar ddiogelwch cleifion.

Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol)

Er na chanfyddodd tîm arolygu AGIC unrhyw berygl ar fin digwydd o ran niwed i gleifion oedd yn derbyn gwasanaethau o fewn yr adran feddygaeth niwclear, gwnaeth ddarganfod ffaeleddau systemig yn ymwneud â'r hawliau sydd gan staff yn ôl y rheoliadau. Golygai hyn o bosib nad oedd y staff yn glir ynghylch pwy allai gymryd rôl atgyfeiriwr, ymarferwr neu weithredwr, fel sy'n ofynnol yn ôl y Rheoliadau. Mae yna bosibilrwydd y gallai hyn fod wedi arwain at gamgymeriad a niwed diangen i gleifion. O ganlyniad, bu'n rhaid i AGIC ysgrifennu llythyr diffyg cydymffurfio at y bwrdd iechyd.

Meddygon Teulu

Canfyddom fod y gwasanaethau'n gweithredu'n dda iawn, a'u bod yn darparu gofal diogel ac effeithiol, er gwaethaf yr her sy'n eu hwynebu o ran ceisio darparu apwyntiadau amserol i gleifion mewn ymateb i'w hanghenion. Ar y cyfan, canfyddom dystiolaeth o reolaeth ac arweinyddiaeth dda, gyda dau bractis yn enwedig wedi datblygu systemau da iawn o archwilio a llywodraethu. Amlygwyd meysydd lle'r oedd gofyn am welliannau mewn dau bractis:

- Angen sicrhau bod bocsys offer miniog yn cael eu cadw'n ddiogel mewn ystafelloedd ymgynghori
- Hyfforddiant staff ar ddyletswyddau hebrwng
- Angen asesiadau risg ar gyfer staff sy'n defnyddio cyfarpar sgrin arddangos
- Angen diwygio/cryfhau trefniadau Gweithio i Wella.

Deintyddol

Cwblhaodd AGIC ddeg o arolygiadau mewn practisau deintyddol sy'n darparu triniaeth o dan y GIG. Amlygwyd y themâu canlynol:

- Ym mhob arolygiad, dywedodd cleifion wrthym eu bod yn hapus gyda'r gwasanaeth a ddarperir
- Canfyddom fod gan y mwyafrif o'r practisau ddigon o offer, a'u bod yn lân ac yn daclus
- Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd dogfennaeth a gwybodaeth ar gael i ddangos bod offer pelydr-x yn cael ei ddefnyddio'n ddiogel
- Roedd staff yn teimlo eu bod yn derbyn cefnogaeth ac yn cael eu rheoli'n dda mewn pum practis
- Canfyddodd AGIC fod angen gwelliannau o ran cadw cofnodion ym mhob un o'r deg arolygiad
- Nodwyd materion yn ymwneud â dadheintio a sterileiddio mewn naw arolygiad
- Roedd angen hyfforddiant pellach ar staff neu angen asesu'r anghenion o ran hyfforddiant staff mewn pum practis
- Amlygwyd cyflwr gwael neu anfoddhaol yr amgylchedd mewn pedwar arolygiad.

Anabledd Dysgu

Cyfrifoldeb Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yw gwasanaethau anabledd dysgu iechyd cymunedol ardal Caerdydd a Bro Morgannwg. Fodd bynnag, darperir y gwasanaethau hyn a gwasanaethau preswyl gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg. Yn ystod 2016-17, cynhaliodd AGIC chwe arolygiad o sefydliadau preswyl ac un arolygiad o dîm anabledd dysgu cymunedol.

Dangosodd ein harolygiad o'r tîm anabledd dysgu cymunedol ei fod yn dîm o staff ymroddgar a brwd wedi'i seilio ar werthoedd cryf a chanfyddom dystiolaeth ei fod yn effeithiol wrth ddarparu ystod o asesiadau ac ymyriadau amlddisgyblaethol.

Roedd staff iechyd yn rhagweithiol o ran gwaith ataliol ac yn gwneud y gwaith hwnnw ochr yn ochr â'u gwaith clinigol. Fodd bynnag, canfyddom fod angen i'r bwrdd iechyd fabwysiadu dull mwy strategol i godi ymwybyddiaeth a rhoi

arferion gorau ar waith ar gyfer pobl ag anabledd dysgu sy'n derbyn gofal sylfaenol a gofal eilaidd.

Yn gyffredinol, canfyddom ddiffyg darpariaeth gwasanaeth addas, yn enwedig lle'r oedd gofyn am wasanaethau arbenigol, a diffyg cynllunio effeithiol ar y cyd gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg ynglŷn â darparu gwasanaeth yn y dyfodol. Roedd angen i'r ddau fwrdd iechyd weithio gyda'i gilydd i fapio a deall anghenion cyfredol poblogaeth Caerdydd a Bro Morgannwg sydd ag anabledd dysgu er mwyn gallu cynllunio gwasanaethau'n effeithiol ar gyfer y dyfodol.

Gwelsom fod angen gwelliannau cyffredinol o ran llywodraethu darpariaeth gwasanaeth anabledd dysgu fel bod yna eglurdeb ynghylch anghenion y boblogaeth, manyleb o wasanaethau Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg a systemau arolygol.

5. Adolygiadau arbennig, ymchwiliadau a chanfyddiadau thematig

Ni wnaethom gynnal unrhyw adolygiadau arbennig nac archwiliadau o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn ystod 2016-17. Gweithiodd AGIC ar bum adolygiad clinigol o achosion o farwolaeth yn y ddalfa i gefnogi gwaith Yr Ombwdsmon Carchardai a Phrofiannaeth.

Adolygiadau clinigol o farwolaeth yn y ddalfa – CEM Caerdydd

Yn ystod 2016-17, cyfrannodd AGIC at bum adolygiad o farwolaeth yn y ddalfa (pedwar naturiol ac un hunanladdiad) yn ymwneud â CEM Caerdydd. O'r pump, mae dau arolygiad yn parhau i fynd ymlaen.

O'r tri adolygiad clinigol a gwblhawyd, roedd hi'n amlwg bod safon y gofal iechyd a ddarparwyd ar gyfer yr unigolyn yn ystod eu hamser yn y ddalfa yn foddhaol ac yn debyg neu'n well na'r hyn fyddai ar gael yn y gymuned.

Mewn un achos, bu'r unigolyn farw o gymhlethdod anghyffredin cyflwr yr oedd yn dioddef ohono'n barod ac nid oedd modd rhagweld hyn cyn ei lawdriniaeth. Roedd hi'n annhebygol iawn bod y cymhlethdod hwn yn bresennol cyn iddo fynd i'r ysbyty cyn iddo farw. Gwnaeth y gwasanaeth carchardai ei drin mewn ffordd addas a phrydlon.

Mewn un achos, derbyniodd unigolyn ddiagnosis o gancr. Fe'i gwelwyd yn rheolaidd gan y tîm gofal lliniarol a gwnaed cynlluniau gofal manwl. Nid oedd

am gael mynd i'r ysbyty a derbyniodd ofal lliniarol llawn yn CEM Caerdydd. Roedd y gofal a dderbyniodd gan wasanaeth y carchardai yn ardderchog.

Mewn un achos, bu'r unigolyn farw o anaf hunanachosedig. Ar y cyfan, roedd y gofal a dderbyniodd o safon uchel, er i AGIC amlygu rhai diffygion a hepgoriadau sydd angen sylw. Fodd bynnag, doedd yna ddim byd i awgrymu y byddai modd osgoi marwolaeth yr unigolyn pe bai'r pethau hyn wedi'u gwneud yn well.

Gwnaeth AGIC argymhellion yn ymwneud â chadw cofnodion, cludiant at apwyntiadau gofal eilaidd ac ansawdd a chyflawnrwydd gwybodaeth anfon adref.

Adroddiad Thematig Gwasanaethau Anabledd Dysgu 2015-16

Yn ystod 2016-17, cyhoeddodd AGIC adolygiad thematig¹ o wasanaethau iechyd GIG ar gyfer pobl ag anableddau dysgu yng Nghymru. Bwriad yr arolwg oedd amlygu cryfderau cyffredin a meysydd lle mae angen gwella, a chynnig argymhellion ar gyfer byrddau iechyd. Mae'r arolwg hefyd yn amlygu arferion da, er mwyn cefnogi gwelliannau i'r gwasanaethau a ddarperir ar gyfer pobl ag anabledd dysgu yng Nghymru. Mae canfyddiadau allweddol ar gyfer Cymru isod:

- Roedd ein canfyddiadau yn gadarnhaol gan fwyaf ynghylch y gwasanaethau a ddarperir gan dimau anabledd dysgu iechyd cymunedol
- Canfyddom fod angen gwelliannau sylweddol mewn nifer o feysydd mewn gwasanaethau preswyl GIG ar gyfer pobl ag anableddau dysgu
- Canfyddom fod pobl fel arfer yn derbyn gofal unigol da gan staff sy'n gwneud eu gorau i ofalu am eu cleifion
- Yn aml, nid oedd gofal am gleifion yn cael ei gefnogi gan reolaeth a threfniadau staffio da.

¹ <http://hiw.org.uk/docs/hiw/reports/161208ldreviewcy.pdf>

Mae angen i'r holl fyrddau iechyd ystyried beth yw pwrpas eu sefydliadau anabledd dysgu preswyl GIG a ph'un ai gofal iechyd pur yw'r gofal a ddarperir yn y sefydliadau yma ai peidio. Os nad felly, dylai'r byrddau iechyd ystyried a fyddai model cymdeithasol o ofal yn fwy addas.

Adroddiad Thematig Gwasanaethau Offthalmoleg 2015-16

Yn ystod 2016-17, cyhoeddodd AGIC adolygiad thematig² o wasanaethau Offthalmoleg. Bwriad yr arolwg oedd edrych ar draws ffiniau gofal sylfaenol a gofal eilaidd er mwyn edrych ar sut roedd darparwyr yn darparu a datblygu gwasanaethau. Roedd yn arolwg oedd yn canolbwyntio ar ddirywiad macwlaidd 'gwlyb' sy'n gysylltiedig â henaint, oherwydd y perygl i gleifion sy'n gysylltiedig ag unrhyw oedi cyn cael triniaeth. Dyma ganfyddiadau allweddol ein hadroddiad:

- Nid oes yna ddigon o gapasiti o ran gofal eilaidd yng ngwasanaethau gofal llygaid Cymru i ateb y galw ar hyn o bryd
- Gall absenoldeb gweithwyr allweddol achosi i rannau o'r llwybr gofal beidio â gweithio'n effeithiol, gan gynyddu'r perygl i gleifion ddiodesdef niwed y mae modd ei osgoi
- Mae angen gwell gwybodaeth ar fyrddau iechyd ynglŷn â'r bwch sydd rhwng capasiti a galw er mwyn eu galluogi i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth o ran cynllunio'r gweithlu
- Clywsom fod ymdrechion i wella gweithio ar y cyd cael eu dal yn ôl mewn rhai ardaloedd o fewn y byrddau iechyd o ganlyniad i berthynas waith wael rhwng gofal iechyd sylfaenol a gofal iechyd eilaidd
- Gwelsom rai mentrau newydd o ran darparu gwasanaethau dirywiad macwlaidd 'gwlyb' sy'n gysylltiedig â henaint, gan gynnwys defnyddio chwistrellwyr anfeddygol. Fodd bynnag, nid yw'r cynnydd o ran datblygu a darparu'r mentrau hyn yn gyson ar draws y byrddau iechyd.

² <http://hiw.org.uk/docs/hiw/reports/170131opreviewcy.pdf>

Mae'n rhaid i bob bwrdd iechyd ddeall bod angen datblygu'r gwasanaethau ymhellach er mwyn gwneud llawn ddefnydd o'r adnoddau sydd ar gael i gryfhau seilwaith a chynaliadwyedd y gwasanaethau gofal llygaid.

6. Camau dilynol a sicrwydd ar unwaith

Camau dilynol

Yn dilyn pob un o'n harolygiadau, gwnaethom gynhyrchu adroddiad o'n canfyddiadau. Mewn meysydd lle'r amlygom fod angen gwelliannau, gofynnem i'r bwrdd iechyd neu bractis i ddarparu cynllun gwella yn dweud sut yr oedd yn mynd i weithredu'r gwelliannau hynny. Ar gyfer rhai arolygiadau, byddwn yn cynnal arolygiad dilynol er mwyn sicrhau bod cynlluniau gwella wedi eu rhoi ar waith.

- Ysbyty Athrofaol Llandochoau - Yn ystod arolygiad heb ei gyhoeddi o flaen llaw ym mis Chwefror 2016, amlygodd AGIC ffaeleddau sylweddol o fewn y gwasanaethau meddygol ac iechyd meddwl ar gyfer pobl hŷn yn yr ysbyty. Er mwyn asesu'r cynnydd yn dilyn yr arolygiad hwn, cynhaliodd AGIC arolygiad dilynol ym mis Chwefror 2017. Er inni wneud nifer o argymhellion, canfyddom fod camau gweithredu addas wedi'u cymryd yn dilyn arolygiad Chwefror 2016.

Sicrwydd ar unwaith

Lle gwnaethom amlygu perygl i ddiogelwch cleifion a oedd yn gofyn am weithredu i wella ar unwaith, anfonem llythyr at y bwrdd iechyd neu bractis yn unol â phroses sicrwydd ar unwaith AGIC.

O'r arolygiadau hynny a gynhaliwyd ar draws Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, dim ond un wnaeth arwain at anfon llythyr yn ceisio sicrwydd ar unwaith. Yn yr achos hwn, llythyr diffyg cydymffurfio ydoedd yn ymwneud â thoriad o Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol). Ni chanfyddodd tîm arolygu AGIC unrhyw berygl ar fin digwydd o ran niwed i gleifion oedd yn derbyn gwasanaethau gan yr adran feddygaeth niwclear. Fodd bynnag, darganfuwyd ffaeleddau systemig yn ymwneud â 'Hawliau' a allent olygu nad oes gan staff yn gyffredinol ar draws y gwasanaethau meddygaeth niwclear glirder ynglŷn â phwy sydd â'r hawl i berfformio rôl atgyfeiriwr, ymarferwr neu weithredwr, fel sy'n ofynnol yn ôl y Rheoliadau. Gallai hyn arwain at gamgymeriad a niwed diangen i gleifion.

Yn dilyn pob un o'n harolygiadau, gwnaethom gynhyrchu adroddiad o'n canfyddiadau. Mewn meysydd lle'r amlygom fod angen gwelliannau, gofynnem

i'r bwrdd iechyd neu bractis i ddarparu cynllun gwella yn dweud sut yr oedd yn mynd i weithredu'r gwelliannau hynny.

7. Llywodraethu

Yn ystod 2016-17, cafodd y bwrdd iechyd nifer o gyfleoedd i ddangos ei fod yn sefydliad sy'n dysgu. Wrth i faterion godi, ymatebodd y bwrdd iechyd yn gadarn, gan geisio eglurhad lle bo angen ac ymgysylltu ag AGIC i sicrhau ei fod yn gallu gwella gwasanaethau lle bod angen.

Mae'n amlwg bod y bwrdd iechyd yn sicrhau y caiff adroddiadau arolygiadau eu trafod gan y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad er mwyn cael dysgu wrthynt ac er mwyn monitro'r broses o roi unrhyw gamau gweithredu angenrheidiol ar waith. Mae'n ymddangos bod y pwyllgor hefyd yn canolbwyntio'n gryf ar archwilio a mynd i'r afael â rhai o'r heriau mawr hynny o ran diogelwch cleifion na sy'n cael sylw yn adroddiadau AGIC.

8. Ymgysylltu

Yn ystod 2016-17, mynychodd Rheolwr Perthnasau AGIC nifer o gyfarfodydd gyda staff y bwrdd iechyd, gan gynnwys cyflwyno Adroddiad y Bwrdd Iechyd 2015-16 i'r Bwrdd Cyhoeddus.

Mae Rheolwr Perthnasau AGIC hefyd yn cyfarfod yn rheolaidd â'r Cyfarwyddwr Nyrsio er mwyn cyfnewid gwybodaeth a, lle bo angen, trafod unrhyw sicrwydd pellach sydd yn ofynnol yn dilyn arolygiad neu faterion a godwyd gyda'r bwrdd iechyd.

Yn ystod y flwyddyn, bu'r bwrdd iechyd yn groesawgar iawn bob tro yr aeth AGIC ato. Galluogodd y berthynas weithio gadarnhaol hon i AGIC gyfrannu at weithdai'r bwrdd iechyd o dan y teitl 'Pan Fo'r Arolygwr yn Galw'. Bwriad y gweithdai yw rhoi syniad i staff o sut beth yw mynd trwy arolygiad a sut i ymgysylltu â'r broses mewn ffordd gadarnhaol.

Cafodd gohebiaeth rhwng AGIC a'r bwrdd iechyd sylw mewn modd amserol a boddhaol.

Cyfarfu Prif Weithredwr AGIC â Phrif Weithredwr a Chadeirydd y bwrdd iechyd yn ystod mis Gorffennaf 2016.

9. Arolygiadau, adolygiadau arbennig, ymchwiliadau a gweithgareddau thematig

Arolygiadau o Ysbytai

1. Ysbyty Athrofaol Cymru	18 Hydref 2016
2. Ysbyty Athrofaol Llandochoau (Arolygiad dilynol)	27 Chwefror 2017
3. Ysbyty Athrofaol Cymru	6 Mawrth 2017

Arolygiadau o Feddygon Teulu

4. Canolfan Feddygol Four Elms, Stirling Close, Pengam Green, Caerdydd. CF24 2HB	18 Ionawr 2017
5. The City Surgery, 187 Heol y Ddinas, Y Rhath, Caerdydd. CF24 3WD	24 Ionawr 2017
6. Canolfan Feddygol Cloughmore, 19 South Park Rd, Y Sblot, Caerdydd. CF24 2LU	31 Ionawr 2017
7. Meddygfa Albany, 219 - 221 Heol y Ddinas, Y Rhath, Caerdydd. CF24 3JD	23 Chwefror 2017

Arolygiadau Deintyddol

8. Nicola Taaffe@West Grove, Y Rhath, Caerdydd, CF24 3AN	26 Medi 2016
9. Practis Deintyddol Ellen Davies, 4a Barons Close House, East Street, Llanilltud Fawr, Bro Morgannwg, CF61 1XY	27 Hydref 2016
10. Dental Surgery, 57 High Street, Y Bont-faen, Bro Morgannwg, CF71 7AF (Arolygiad dilynol)	14 Tachwedd 2016
11. Cardiff Smile Centre, 113 Clare Road, Grangetown, Caerdydd, CF11 6QR	15 Tachwedd 2016
12. Wilson Road Dental Surgery, 29 Wilson Road, Trelái, Caerdydd, CF5 4LL	18 Tachwedd 2016
13. Smiles Dental, 68a Heol y Bontfaen, Caerdydd, Treganna, CF11 9DU	24 Tachwedd 2016
14. Cathedral Orthodontics, 80 Ffordd yr Eglwys Gadeiriol, Pontcanna, Caerdydd, CF11 9LN	5 Rhagfyr 2016
15. The Orthodontic Centre, Beck Court, Parc Busnes Porth Caerdydd, Pontprennau, Caerdydd, CF23 8RP	5 Ionawr 2017
16. Practis Deintyddol Wilton House, 49 Station Road, Ystum Taf, Caerdydd, CF14 2FB	28 Chwefror 2017
17. Practis Deintyddol My Dentist, 17 Stryd y Cei, Caerdydd, CF10 1EA	21 Mawrth 2017

Arolygiadau Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol)

18. Ysbyty Athrofaol Cymru, Gwasanaethau Meddygaeth Niwclear	5 Hydref 2016
--	---------------

Arolygiadau Anableddau Dysgu

19. Gwasanaeth preswyl a reolir gan ABMU	2 Mehefin 2016
20. Gwasanaeth preswyl a reolir gan ABMU	14 Mehefin 2016
21. Tŷ Rowan, Trelái, Caerdydd	27 Mehefin 2016
22. Hafod Y Wennol, Hensol, ger Pont-y-clun	28 Mehefin 2016
23. Tîm Anableddau Dysgu Cymunedol Caerdydd a'r Fro	4 Gorffennaf 2016
24. Gwasanaeth preswyl a reolir gan ABMU	5 Gorffennaf 2016

Arolygiadau Monitro Deddf Iechyd Meddwl

25. Hafan Y Coed, Ysbyty Athrofaol Llandochau (4 ymweliad)	27 Chwefror 2017
--	------------------

Arolygiadau Unedau Iechyd Meddwl

29. Hafan Y Coed, Ysbyty Athrofaol Llandochau	27 Chwefror 2017
---	------------------

Archwiliadau – Marwolaeth yn y Ddalfa

30. CEM Caerdydd	Mai 2016
31. CEM Caerdydd	Tachwedd 2016
32. CEM Caerdydd	Chwefror 2017